This document is also available in English

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

## GWASANAETHAU ADDYSG

# POLISI CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL

## Yn weithredol o: 1 Medi 2025

**Pennaeth Gwasanaethau Addysg**
**Cyhoeddwyd:** Medi 2024

**Diwygiadau i'r Polisi  Awst 2024**

| Paragraff | Newid |
|---|---|
| Cynnwys; A2 | Pennawd Adran 2 - newid "Gorfodol" i "Statudol" |
| Drwyddi draw | Newid "y Cyngor" i "yr Awdurdod Lleol". |
| Drwyddi draw | Dileu "Datganiad o Angen Addysgol" gan y bydd CDUau yn cymryd lle'r rhain o fis Gorffennaf 2025 |
| Drwyddi draw | Newid "fo/hi" i "nhw" |
| Tudalen flaen | Symud y dyddiad 'gweithredol o', symud y tabl o ddiwygiadau i'r polisi i dudalen 2; newidiadau fformatio |
| A1.2.3 | Ychwanegu brawddeg "o dan y dyletswyddau statudol" |
| A3.1 | Brawddeg ychwanegol "Bydd y pellter statudol a nodir yn Adran 2 yn berthnasol i feini prawf dewisol oni bai bod darpariaeth bendant i'r gwrthwyneb" |
| A3.2 | Newid "gweler paragraff 1.3" i "gweler Adran 2", newid "ysgolion yng nghategori 1 neu 2" i "ysgolion yng nghategori 3" |
| A3.3 | Ychwanegu at y frawddeg gyntaf "sy'n disgyn y tu allan i'r meini prawf pellter statudol" |
| A3.4 | Newid "dysgwyr o oed ysgol gorfodol" i "dysgwyr o oedran ysgol gorfodol" |
| A3.5.3 | Dileu "Bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei hystyried pan fo ffurflen eithriad meddygol/anabledd/anhawster dysgu wedi'i llenwi gan ymarferydd gyda chymhwyster addas yn cael ei anfon gyda'r cais am gludiant." Ychwanegu "Bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei hystyried pan fydd ffurflen gais am gludiant ar sail feddygol yn cael ei chwblhau ynghyd â thystiolaeth gan ymgynghorydd neu berson o statws tebyg (nid Meddyg Teulu, Nyrs neu Ymarferydd)." |
| A3.5.4 | Ychwanegu brawddeg newydd "Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i ddatblygu a chefnogi dysgwyr i deithio mor annibynnol ag sy'n bosibl.  Bydd adolygiad yn ystyried y math o gludiant a ddarperir i'r dysgwr ac, os darperir cynorthwyydd teithwyr personol, p'un a oes angen parhaus.Gall yr Awdurdod Lleol wneud newidiadau i drefniadau trafnidiaeth yn dilyn adolygiad." |
| A3.6b | Dileu "od" |
| A3.7 | Dileu Adran 3.7 Dysgwyr sy'n newid cyfeiriad yn ystod eu haddysg |
| A3.8.1 | Ychwanegu brawddeg "a darperir tystiolaeth o ffydd (megis tystysgrif bedydd, tystysgrif prawf o ffydd neu lythyr gan arweinydd ffydd)." |
| A3.9 | Ychwanegu "Sipsiwn Roma" cyn "teithwyr".  Dileu'r frawddeg "Mae hyn er mwyn datblygu patrwm o bresenoldeb rheolaidd. " |
| A6.4 | Yn y frawddeg "Yw'r brif breswylfa a'r ail breswylfa ym Mwrdeistref Sirol Conwy"; mae "a'i ail breswylfa" wedi'i ychwanegu. Yn y frawddeg "Bodloni'r pellter statudol; ac os", mae'r geiriau "ac os" wedi'u hychwanegu |
| A10.2 | Newid "achlysurol statudol" i "blynyddol" |
| A11 | Aileirio'r teitl o "Gwybodaeth ynghylch cludiant i ddisgyblion ôl 16" i "Dysgwyr Ôl-16". Newid "mynychu sefydliad addysgol cymwys" i "eu sefydliad addysgol agosaf (gall hyn fod naill ai eu hysgol uwchradd agosaf neu ysgol uwchradd eu dalgylch, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg neu goleg addysg bellach)".  Dileu'r frawddeg "Ni chodi'r tâl am y cludiant hwn." Dileu adran 11.2 i gyd.  Ychwanegu brawddeg newydd "Ni ddarperir cludiant ar gyfer cyrsiau preswyl." Dileu "Mae'r ffurflen gais ar gyfer cludiant ôl-16 ar gael ar wefan y Cyngor.  Cludiant Am Ddim i'r Ysgol / Coleg  – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy" |
| Symud A11 i A3 | Symud Ôl-16 o Adran 11 i Adran 3 o dan y meini prawf dewisol ac ail-rifo'r adrannau'n unol â hynny |
| S14.1 | Diweddaru'r adran o "Mynd i dudalennau gwe Gwasanaethau Addysg CBS Conwy" i "Gwneud cais ar-lein trwy wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy" Ychwanegu "Gwasanaeth Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Blwch Post 1 Conwy LL30 9GN ar ddiwedd y frawddeg "Trwy'r post gan Wasanaethau Addysg CBS Conwy" |

www.conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**CYNNWYS**


**1. Cefndir**
- 1.1 Y Gyfraith
- 1.2 Prif Ddarpariaeth y Mesur
- 1.3 Dehongliad

**2. Darpariaeth Statudol**

**3. Darpariaeth Ddisgresiwn**
- 3.2 Cyfrwng y Gymraeg
- 3.3 Cau ysgol
- 3.4 Ni ystyrir bod llwybr i'r ysgol (anniogel)
- 3.5 Meddygol / Anghenion Dysgu Ychwanegol
- 3.6 Ymddygiad
- 3.7 Dysgwyr Ôl-16
- 3.8 Ysgolion Enwadol
- 3.9 Plant Teithwyr Sipsiwn Roma

**4. Seddau Gostyngiadol**
**5. Plant Sy'n Derbyn Gofal**
**6. Preswylio Deuol**
**7. Dull Cludiant**
**8. Hyd y daith**
**9. Casglu a dychwelyd**
**10. Cynorthwywyr Teithwyr**
**11. Hawl i dynnu cludiant yn ôl**
**12. Cod ymddygiad teithio**
**13. Y broses gwneud cais**
**14. Datrys anghydfod**
**15. Cwynion**
**16. Cysylltiadau**

# POLISI CLUDIANT CARTREF / YSGOL - C.B.S. CONWY

## 1. Cefndir

## 1.1 Y Gyfraith

1.1.1 Mae Ddeddf Addysg 1996 (fel y’i diwygiwyd) yn gosod y gyfraith yng Nghymru a Lloegr ar gyfer **presenoldeb** disgyblion yn yr ysgol ac mae’r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) (fel y’i diwygiwyd) (‘y Mesur’) yn gosod y fframwaith cyfreithiol yn benodol mewn perthynas â darpariaethau **teithio a thrafnidiaeth** ar gyfer dysgwyr yn teithio o’r cartref i’r ysgol yng Nghymru.

1.1.2 Cyhoeddwyd “Teithio gan ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllaw Gweithredol” (Mehefin 2014) (“y Canllaw”) gan Weinidogion Cymru o dan adran 15 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Teithio gan Ddysgwyr Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol

1.1.3 Mae angen i’r awdurdod addysg lleol benderfynu a yw darparu cludiant i ddisgyblion o oed ysgol statudol yn angenrheidiol er mwyn hwyluso presenoldeb disgybl mewn ysgol ddynodedig. Rhaid darparu’r cludiant am ddim os ystyrir bod y cludiant yn angenrheidiol.

1.1.4 Dylid nodi mai cyfrifoldeb y rhieni/gwarcheidwaid yw gwneud trefniadau i gludo eu plant i ac o’r ysgol yn ddiogel (pan nad ydynt yn cymhwyso i gael cludiant) ac i ac o arosfa bws a mannau codi.

## 1.2 Prif Ddarpariaeth y Mesur

1.2.1 Mae’r Mesur yn gosod anghenion penodol ar gyfer cludiant cartref i’r ysgol yng Nghymru. Y brif ddarpariaeth yw:

1.2.2 Dyletswyddau Cyfreithiol Gweinidogion Cymru. Rhaid i Weinidogion Cymru:

- Greu Cod Ymddygiad Cymru Gyfan wrth Deithio (Cod Teithio)
- Hyrwyddo mynediad at Addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg
- Hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio

1.2.3 Dyletswyddau cyfreithiol yr awdurdod lleol. **Rhaid** i awdurdodau lleol:

- asesu anghenion teithio disgyblion yn ardal eu hawdurdod lleol
- darparu cludiant rhad ac am ddim o’r cartref i’r ysgol ar gyfer disgyblion o oed ysgol gorfodol sy’n mynychu ysgolion cynradd sy’n byw mwy na 2 filltir o’r ysgol addas agosaf

- darparu cludiant rhad ac am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion oed ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgolion uwchradd sy'n byw mwy na 3 milltir o'r ysgol addas
- asesu a chyfarfod anghenion plant "sy'n derbyn gofal" yn ardal eu hawdurdod lleol
- hyrwyddo mynediad at addysg trwy gyfrwng y Gymraeg
- hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio

Pan nad oes gan ddisgyblion hawl i gael cludiant am ddim o dan y dyletswyddau statudol, mae gan awdurdodau lleol, y grym i ddarparu cludiant disgresiwn. (Mae Adran 3 yn darparu gwybodaeth ynghylch sut mae CBS Conwy wedi penderfynu defnyddio'i ddisgresiwn.)

1.2.4 Dyletswyddau Cyfreithiol Penaethiaid Ysgol. **Rhaid** iddynt:

- sicrhau cydymffurfio â'r Cod Teithio

Dylai Penaethiaid hefyd:

- hyrwyddo gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r Cod Teithio
- cynnwys y Cod Teithio ym mholisi ymddygiad cyffredin yr ysgol

## 1.3 Dehongliad

- *Golyga'r "ysgol briodol agosaf" – yr ysgol dalgylch neu'r ysgol agosaf ble mae'r "addysg neu hyfforddiant a ddarparwyd yn addas gan ystyried oed, gallu a thueddfryd disgybl ac unrhyw anhawster dysgu sydd ganddo neu ganddi".*

- *Golyga "dalgylch" – ardal ddaearyddol ddynodedig pob ysgol sydd wedi'i osod trwy gytundeb rhwng yr Awdurdod Lleol a chorff llywodraethol yr ysgol berthnasol. Cyhoeddir y rhain ar wefan Conwy.*

- *Golyga "trefniadau cludiant addas" drefniadau addas sy'n hwyluso presenoldeb disgybl yn yr ysgol briodol agosaf bob dydd.*

- *Golyga "meini prawf pellter statudol" ddwy filltir neu fwy (3.21 kilometr) i ddisgybl oed ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol gynradd, neu dair milltir neu fwy (4.82 kilometr) i ddisgyblion oed ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol uwchradd.*

- *Golyga "Plan sy'n cael eu gofalu" "Plant sy'n Derbyn Gofal"*

- *Golyga "Cynorthwywyr Teithwyr" hebryngwyr.*

## 2. Darpariaeth Statudol

2.1 Yn unol ag anghenion deddfwriaethol, bydd gan ddisgybl o oed ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol gynradd sy'n byw dwy filltir neu fwy (3.21 kilometer) o'u hysgol briodol agosaf hawl i gludiant cartref i'r ysgol am ddim i'r ysgol

ddalgylch neu'r ysgol agosaf. (Mae paragraff 1.1.4 yn berthnasol i 'arosfa bws a mannau codi'

2.2 Yn unol ag anghenion deddfwriaethol, bydd gan ddisgybl o oed ysgol orfodol sy'n mynychu ysgol uwchradd sy'n byw tair milltir (4.82 kilometer) neu fwy o'u hysgol briodol agosaf hawl i gludiant cartref i'r ysgol am ddim i'r ysgol ddalgylch neu'r ysgol agosaf. (Mae paragraff 1.1.4 yn berthnasol i 'arosfa bws a mannau codi')

2.3 Bydd y llwybr cartref i'r ysgol yn cael ei fesur gan feddalwedd yr awdurdod lleol a all o bryd i'w gilydd gael ei adolygu wrth i ddatblygiadau technolegol gael eu gwneud.

2.4 Bydd y llwybr yn cael ei fesur o groestoriad y man mynediad agosaf gyda'r cartref gyda ffordd wedi'i mabwysiadu i'r fynedfa agosaf i dir yr ysgol.

## 3. Darpariaeth Ddisgresiwn

**3.1** Efallai y bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cludiant cartref i'r ysgol disgresiwn pan fo disgyblion yn cyfarfod y meini prawf a nodwyd ym mharagraffu 3.2 i 3.9 isod. Bydd y pellter statudol a nodir yn Adran 2 yn berthnasol i feini prawf dewisol oni bai bod darpariaeth bendant i'r gwrthwyneb

### 3.2 Cyfrwng y Gymraeg

Bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cludiant cartref i'r ysgol am ddim i ddisgyblion o oed ysgol gorfodol sy'n cyfarfod y meini prawf pellter statudol (gweler Adran 2 uchod) i'r ysgol cyfrwng y Gymraeg agosaf (h.y. Ysgolion yng nghategori 3. (Gweler y Ddogfen Gwybodaeth Ysgol bresennol)

(Mae paragraff 1.1.4 yn berthnasol i 'arosfa bws a mannau codi').

### 3.3 Cau Ysgol

Bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cludiant cartref i'r ysgol am ddim i ddisgyblion o oed ysgol gorfodol pan fo cau ysgol yn arwain at ddisgybl yn cael ei drosglwyddo i ysgol arall sy'n disgyn y tu allan i'r meini prawf pellter statudol. Bydd disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol sy'n cau yn cael cludiant am ddim i'r ysgol ddalgylch newydd neu'r ysgol agosaf, yn amodol i gyfarfod y meini prawf pellter statudol, hyd y bo'r disgybl yn gorffen ei addysg yn yr ysgol honno.

Os bydd disgybl o oed ysgol gorfodol yn gadael yr ysgol derbyn i symud i ysgol arall, cynradd neu uwchradd, bydd yr hawl i'r ddarpariaeth ddisgresiwn hon yn dod i ben; wedi hyn bydd hawl disgybl i gludiant cartref i'r ysgol am ddim yn cael ei benderfynu gan y polisi hwn.

(Mae paragraff 1.1.4 yn berthnasol i 'arosfa bws a mannau codi')

### 3.4 Ni ystyrir bod llwybr i’r ysgol (anniogel)

Bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cludiant cartref i’r ysgol am ddim i ddisgyblion o oed ysgol gorfodol pan fo’r llwybr cerdded i’r ysgol addas agosaf wedi cael asesiad risg gan yr Awdurdod Lleol sydd wedi canfod ***nad yw ar gael*** oherwydd natur y llwybr yn ôl Darpariaeth Statudol a Chanllaw Gweithredol” Llywodraeth Cymru neu unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol. Teithio gan Ddysgwyr Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol

### 3.5 Meddygol / Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

3.5.1 Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried cyflwr meddygol, anabledd ac anhawster dysgu
disgybl wrth asesu disgybl anghenion teithio disgyblion yn yr ardal.

3.5.2 Os oes gan ddisgybl Gynllun Datblygu Unigol (CDU), bydd cludiant i’r disgybl yn cael ei ddarparu yn unol â’r CDU – gall hyn gynnwys plant cyn ysgol. Os bydd y CDU yn cael ei adolygu a’r elfen cludiant yn cael ei ddiwygio, bydd darparu cludiant yn adlewyrchu’r CDU diwygiedig.

3.5.3 Gall yr Awdurdod Lleol ddarparu cludiant cartref i’r ysgol am ddim i ddisgyblion o oed ysgol gorfodol ond nid oes ganddynt CDU pan fo’r disgybl yn gofyn am gludiant am resymau meddygol neu resymau anabledd neu anhawster dysgu. Bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei hystyried pan fydd ffurflen gais am gludiant ar sail feddygol yn cael ei chwblhau ynghyd â thystiolaeth gan ymgynghorydd neu berson o statws tebyg (nid Meddyg Teulu, Nyrs neu Ymarferydd).-

3.5.4 Bydd cludiant i ddisgybl gydag anhawster meddygol/ADY yn dibynnu ar ei amgylchiadau unigol a’r llwybr mae’n rhaid i’r disgybl ei deithio. Bydd trefniadau cludiant yn cael eu hadolygu’n flynyddol. Mae’r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i ddatblygu a chefnogi dysgwyr i deithio mor annibynnol ag sy’n bosibl. Bydd adolygiad yn ystyried y math o gludiant a ddarperir i'r dysgwr ac, os darperir cynorthwyydd teithwyr personol, p’un a oes angen parhaus.Gall yr Awdurdod Lleol wneud newidiadau i drefniadau trafnidiaeth yn dilyn adolygiad.

3.5.5 Yn gyffredinol bydd ar unrhyw gais am ddarpariaeth cludiant tymor hir angen ei ardystio gan ymgynghorydd neu arbenigwr o statws tebyg. Mae’n annhebygol y bydd ceisiadau a ardystiwyd gan feddyg yn ddigon ar gyfer eithriad meddygol/anabledd/anhawster dysgu tymor hir.

### 3.6 Meini Prawf Ymddygiad

3.6.1 Efallai y bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion o oed ysgol gorfodol o’u cartref i sefydliad addysgol pan:

a) fo gan ddisgybl ffobia. Mae hyn yn golygu mwy nag amharodrwydd neu wrthod mynychu’r ysgol ac ni fydd cludiant fel arfer yn cael ei ddarparu i atal disgybl rhag triwantio.

b) Mae'r disgybl yn agored i niwed. Gall hyn fod oherwydd anaeddfedrwydd cymdeithasol/emosiynol, y perygl o gam-drin rhywiol, corfforol neu emosiynol, ymddygiad sy'n denu sylw afiach neu'r perygl o ymwneud mewn gweithgaredd ymosodol, troseddol neu'n ymwneud â sylweddau, mae rhieni sy'n mynd gyda'u plentyn/plant, yn methu rheoli'r plentyn/plant.

c) Mae risg wedi'i sefydlu o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu beryglus, mae'r rhieni sy'n mynd gyda'u plentyn/plant, yn methu ei reoli.

Bydd angen i'r sefyllfaoedd fel arfer fod yn berthnasol yn gyffredinol ac nid ar y daith i ac o'r ysgol.

Bydd plant sy'n cyfarfod y meini prawf wedi'u hasesu'n unigol gan staff yr Awdurdod Lleol.

### 3.7 Dysgwyr Ôl-16

3.7.1 Darperir cludiant i ddysgwyr ôl-16 sy'n byw 3 milltir neu fwy o'u sefydliad addysgol agosaf (gall hyn fod naill ai eu hysgol uwchradd agosaf neu ysgol uwchradd eu dalgylch, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg neu goleg addysg bellach. Mae'n rhaid i ddysgwr fod yn astudio cwrs llawn amser a bod dan 19 oed ar 1 Medi y flwyddyn academaidd y dilynir y cwrs.

3.7.2 Disgwylir i ddysgwyr wneud eu trefniadau teithio eu hunain i'r man codi agosaf. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i ddysgwyr ôl-16 ganfod eu ffordd eu hunain i'r man codi agosaf os yw'n bellach na 3 milltir.

3.7.3 Ni ddarperir cludiant ar gyfer cyrsiau preswyl.

### 3.8 Cludiant i Ysgolion Enwadol

3.8.1 Yn amodol i gyfarfod y meini prawf pellter statudol, bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cludiant cartref i'r ysgol am ddim i ddisgyblion o oed ysgol gorfodol cyn belled bod y disgybl yn byw o fewn dalgylch yr ysgol enwadol dan sylw.

3.8.2 Darpariaeth drosiannol **-** Bydd disgybl o oedran ysgol gorfodol sydd eisoes yn cael darpariaeth cludiant cartref i'r ysgol am ddim i ysgol enwadol yn parhau i gael y ddarpariaeth tra bo'r plentyn yn parhau i fynychu'r ysgol honno a darperir tystiolaeth o ffydd (megis tystysgrif bedydd, tystysgrif prawf o ffydd neu lythyr gan arweinydd ffydd).

### 3.9 Plant Teithwyr Sipsiwn Roma

Gall cludiant gael ei ddarparu i blant teithwyr Sipsiwn Roma er nad ydynt yn byw o fewn y meini prawf pellter statudol o'r ysgol. Mae hyn er mwyn datblygu patrwm o bresenoldeb rheolaidd.

# 4. Seddau Gostyngiadol

4.1 Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn caniatáu i’r Awdurdod Lleol godi tâl am ddarparu sedd ostyngiadol ar gludiant pan nad oes gan ddisgybl o oed ysgol gorfodol hawl i gludiant o’r cartref i’r ysgol am ddim. Caiff seddau gostyngiadol o’r fath eu cynnig dim ond mewn achosion pan fo seddau gwag ar gludiant sy’n bodoli eisoes.

Fodd bynnag, mae gofynion Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus yn golygu na ellir codi tâl am gynnig seddau gostyngiadol oni bai bod cerbyd yn cydymffurfio â’r Rheoliadau, neu bod eithriad ar waith gan yr Adran Drafnidiaeth. Bydd Conwy’n gwneud cais am eithriadau pan fyddant ar gael gan yr Adran Drafnidiaeth.

Os bydd eithriad ar waith, neu os bydd newidiadau i ddeddfwriaeth yn golygu bod modd codi tâl yn gyfreithlon, bydd yr Awdurdod yn codi tâl am gynnig seddau gostyngiadol.

(a) Bydd y gost yn amodol i adolygiad blynyddol (gweler y wefan am y gost bresennol).

(b) Bydd seddau’n cael eu dyrannu ar sail caffaelrwydd ar ddechrau’r tymor ac yn cael eu blaenoriaethu fel a ganlyn:

- y rhai sy’n byw bellaf o’r ysgol a ddewiswyd
- y ceisiadau a wnaed yn gyntaf

c) nid oes gwarantu parhau seddau gostyngiadol. Os bydd nifer y disgyblion sydd â hawl i gludiant am ddim yn cynyddu, efallai y bydd angen dadleoli disgyblion sydd wedi prynu seddau gostyngiadol. Bydd gan deuluoedd hawl i ad-daliad ar sail pro rata o dan yr amgylchiadau hyn.

## 5. Plant sy’n Derbyn Gofal (PDG)

5.1. O dan y Mesur, mae’r un meini prawf oed a phellter yn berthnasol i blant sy’n derbyn gofal â phlant nad ydynt dan ofal ond nid oes anghenraid iddynt fynychu’r ysgol addas agosaf i’w cartref. Mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb fel rhiant corfforaethol dros blant sy’n derbyn gofal. Mae’n rhaid i’r Awdurdod Lleol wneud pob ymdrech rhesymol i ddarparu sefydlogrwydd a pharhad i blant sy’n derbyn gofal parthed darpariaeth ysgol. ***GALL*** cludiant am ddim gael ei ddarparu er cynnal presenoldeb yn ysgol bresennol y plentyn sy’n derbyn gofal mewn achosion pan fo plentyn yn cael ei roi dwy filltir neu fwy o’r ysgol gynradd neu dair milltir neu fwy o’r ysgol uwchradd.

5.2. Bydd darparu cludiant yn cael ei adolygu yn ystod adolygiadau statudol y plentyn sy’n derbyn gofal.

## 6. Preswylio deuol

6.1. Os oes gan ddisgybl fwy nag un cartref oherwydd nad yw rhieni'r disgybl yn byw gyda'i gilydd ond mae'r disgybl yn byw am ran o'r wythnos gyda phob rhiant, yna bydd y ddau le preswylio yn cael eu hystyried fel mannau preswylio arferol y disgybl.

6.2. Dim ond trefniadau parhaol sydd wedi'u sefydlu fydd yn cael eu hystyried; bydd hyn yn cynnwys disgybl sy'n aros dwy noswaith yr wythnos gydag un rhiant a thair noson yr wythnos gyda rhiant arall, neu bob yn ail wythnos gyda phob rhiant.

6.3 Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y disgybl ac mae'r disgybl yn byw gydag ef/hi am ran o'r wythnos ysgol.

6.4 O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y gellir darparu cludiant cartref i'r ysgol am ddim o'r ddwy breswylfa i'r ysgol addas agosaf i'r cartref mae budd-dal plant yn cael ei dalu (y brif breswylfa) os:

- Yw'r brif breswylfa a'r ail breswylfa ym Mwrdeistref Sirol Conwy.
- Bodloni'r pellter statudol; ac os
- Yw'r daith o'r ail breswylfa yn llai na 10 milltir i'r ysgol

Rhaid i'r cais fod yn ysgrifenedig, yn nodi'r trefniadau cytunedig gyda thystiolaeth o breswylio deuol.

6.5 Os oes mwy na dau le preswyl normal, bydd hyn ond yn berthnasol i'r ddwy breswylfa sydd agosaf i'w hysgol.

## 7. Dull Cludiant

7.1 Wrth benderfynu'r dull cludiant sydd ei angen, bydd yr egwyddorion canlynol yn berthnasol:

(i) yr angen am gludiant arbenigol

(ii) Cynllun Datblygu Unigol neu Anghenion Addysgol Arbennig y plentyn fel y diffiniwyd yn CDU y disgybl.

7.2 Gall symudedd a chludiant fod yn broblem am oes i rai disgyblion a rhieni neu ofalwyr. Dylai addysg fod yn baratoad ar gyfer bywyd ac mae cludiant i ac o'r ysgol yn rhan o'r paratoad. Am y rheswm hwn bydd defnyddio meini prawf ac ystyriaethau cyffredinol yn berthnasol, ble bynnag y bo'n ymarferol bosibl, i bob disgybl.

7.3 Ymhob achos, bydd defnydd effeithlon o adnoddau'n penderfynu'r dull cludiant (yn amodol i'r amodau uchod). Efallai y bydd cludiant yn cael ei ddarparu trwy wasanaethau cludiant ysgol contract neu gludiant cyhoeddus sy'n bodoli fydd, ynghyd â'r math arall o gludiant (bws, bws mini, trên, tacsi, etc.) yn cael ei benderfynu gan gost effeithioldeb. Mewn rhai achosion, efallai y bydd bws contract yn cludo gwahanol ddisgyblion i fwy nag un ysgol.

7.4 Mewn amgylchiadau arbennig, efallai y bydd taliad ariannol yn unol â graddfa milltiroedd a gymeradwywyd gan HMRC ar gael i gludo disgyblion sy'n cyfarfod yr holl feini prawf os bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried ei fod yn fwy cost effeithiol.

## 8. Hyd y daith

8.1 Ni ddylai amser teithio arferol fod yn fwy na 45 munud ar gyfer teithio i ysgol gynradd a 60 munud ar gyfer teithio i ysgol uwchradd.

8.2 Efallai y bydd rhai amgylchiadau eithriadol pan na ellir cadw at y cyfyngiadau amser hynny megis oedi oherwydd trafnidiaeth drom, gwaith ar y ffordd, gwyriadau a thorri i lawr.

8.3 Efallai y bydd amgylchiadau mewn ardaloedd gwledig ac yn y sector uwchradd ble efallai y bydd yr ysgol briodol agosaf ymhellach i ffwrdd na fyddai amseroedd teithio o'r fath yn ei ganiatáu. Mewn amgylchiadau eraill efallai y bydd ar ddisgyblion gydag anghenion arbennig, anghenion dysgu ychwanegol neu blant dan ofal angen eu cludo i sefydliadau sydd ymhellach i fwrdd.

## 9. Casglu a Dychwelyd

9.1 Bydd cludiant fel arfer i ac o arosfa bws neu fannau codi i grwpiau o ddisgyblion. Bydd drws i ddrws ond yn cael ei ddarparu mewn amgylchaidau eithriadol.

9.2 Yn arbennig:

i. Ni ddisgwylir i ddisgybl 11 oed neu is ganfod ei ffordd ei hun dros ddwy filltir i'r man codi agosaf.

ii. Ni ddisgwylir i ddisgybl 11 oed neu drosodd ganfod ei ffordd ei hun dros dair milltir i'r man codi agosaf.

iii. Ni fydd gan unrhyw ddisgybl sydd â hawl i gludiant ar lwybr contract hawl i gludiant y tu allan i amserlen ddyddiol normal y llwybr contact hwnnw.

iv. Ni fydd cludiant yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod Lleol yn ystod y diwrnod ysgol i wahanol safleoedd.

v. Ni fydd cludiant yn cael ei ddarparu i glybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol, meithrinfeydd neu gyfeiriadau heb law cyfeiriad preswylio arferol y disgybl.

## 10. Cynorthwywyr Teithwyr

10.1 Mewn rhai achosion, efallai y bydd disgyblion gyda Chynllun Datblygu Unigol neu Anghenion Addysgol Ychwanegol yn cael cynorthwywyr teithwyr os bydd hyn wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol.

**10.2** Bydd y ddarpariaeth yn cael ei adolygu fel rhan o adolygiadau blynyddol achlysurol statudol o anghenion addysgol y plentyn.

## 11. Hawl i dynnu cludiant yn ôl

11.1 Os canfyddir y darparwyd cludiant am ddim mewn camgymeriad, e.e. y llwybr wedi'i fesur yn anghywir, mae gan yr Awdurdod Lleol yr hawl i dynnu cludiant yn ôl yn amodol i hysbysiad rhesymol (fel arfer hyd ddiwedd y tymor y canfuwyd y camgymeriad).

11.2 Pan fo amgylchaidau wedi newid e.e. wedi adolygiad o ddarpariaeth cludiant, pan fo llwybrau troed newydd yn cael eu darparu etc. mae gan yr Awdurdod Lleol hefyd yr hawl i dynnu cludiant am ddim yn ôl ar ddiwedd y flwyddyn academaidd honno.

## 12. Cod Ymddygiad Teithio

12.1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi Cod Ymddygiad Teithio, o dan adran 12 y Mesur, sy'n berthnasol i bob disgybl hyd at 19 oed. Mae diogelwch disgyblion yn ddibynnol ar safon yr ymddygiad ar gludant ysgol. Bydd mân achosion o gamymddwyn, difrod neu niwed i deithwyr eraill yn cael ei drin trwy lythyrau rhybuddio a anfonir i deuluoedd disgyblion.

12.2 Os bydd disgybl yn camymddwyn yn ddifrifol neu'n barhaus ar gludiant ysgol, mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i dynnu cludiant yn ôl. Gall hyn ddigwydd hyd yn oed os nad oes llythyr rhybuddio wedi'i gyhoeddi.

12.3 Pan fo cludiant yn cael ei dynnu yn ôl, bydd y drefn a'r graddfeydd amser a nodwyd yng Nghanllaw Statudol Cod Ymddygiad Teithio yn cael eu dilyn, yn arbennig y canllaw a roddir yn adran 4 y Cod Ymddygiad Teithio yn ymwneud â disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig **.**

**Nodiadau (Canllaw yn unig yw'r rhain ac nid ydynt yn ffurfio rhan o'r polisi)**

i. Mae'r gyrrwr yn gyfrifol am oruchwylio'r plant sy'n ei gerbyd yn ystod y daith i ac o'r Ysgol.

ii. Bydd y gyrrwr, yn ôl y drefn a gytunwyd, yn dweud wrth bennaeth yr ysgol am y camymddwyn ac mae gan y pennaeth y grym i drin achosion o gamymddwyn ar gludiant ysgol a gall, pe bai angen argymell i'r AALl bod y cludiant yn cael ei dynnu yn ôl.

## 13. Y broses gwneud cais

13.1 Mae ffurflenni gwneud cais am gludiant ar gael drwy:

- Gwneud cais ar-lein trwy wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cludiant Am Ddim i'r Ysgol / Coleg – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Trwy'r post gan Wasanaethau Addysg CBS Conwy, Coed Pella, Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN

# 14. Datrys Anghydfod

14.1 Anghydfod ar sail hawl (gan gynnwys asesiadau o lwybrau sydd ar gael) neu ynghylch penderfyniadau i dynnu cludiant cartref i'r ysgol yn ôl.

14.2 Pan fo cludiant cartref i'r ysgol wedi'i wrthod neu dynnu'n ôl, mae gan deulu hawl i herio'r penderfyniad.

14.3 **Cam 1**

Cam cyntaf y drefn datrys anghydfod yw adolygiad gan y Gwasanaeth perthnasol. Dylai'r rheini yn gyntaf roi manylion yr anghydfod mewn ysgrifen gydag unrhyw dystiolaeth gefnogi dros yr anghydfod. Cyfrifoldeb y rhieni fydd casglu'r dystiolaeth berthnasol. Dylai'r dystiolaeth hon ganolbwyntio ar ddangos sut y gallai'r Awdurdod Lleol fod wedi gwneud penderfyniad anghywir.

Dylai llythyr i ddatrys yr anghydfod gael ei anfon at yr Adran Rheoli Safle, Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Adeiladau'r Llywodraeth, Ffordd Dinerth, Llandrillo yn Rhos, LL28 4UL neu anfonwch ebost at education@conwy.gov.uk

Bydd uwch swyddog yn adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd a rhoi adroddiad yn ôl i chi gyda chanlyniadau'r adolygiad.

Bydd cadarnhau derbyn yn cael ei anfon o fewn 5 diwrnod gwaith a bydd ymateb ffurfiol yn cael ei anfon at rieni o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cael y cais i ddatrys yr anghydfod.

**Cam 2**

Os na fydd yr ymgeiswyr yn fodlon â'r ymateb i'w datrysiad i anghydfod cam 1, gallant godi anghydfod cam dau a gaiff ei drin gan banel sy'n cynnwys Pennaeth y Gwasanaethau Addysg, yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Addysg a'r Aelod Cabinet yr Amgylchedd a Chludiant. Byddant yn ystyried y dystiolaeth ac ymateb i'r rhieni cyn pen 20 diwrnod gwaith o dderbyn y cais am symud ymlaen i gam 2.

Caiff pob cais ei farnu ar ei rinwedd ei hun yn erbyn Polisi a gweithdrefnau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod Lleol.

Bydd penderfyniad panel cam 2 yn derfynol."

# 15. Cwynion

15.1 Bydd pob cwyn am y gwasanaeth yn cael ei drin yn ôl Polisi Cwynion a Gweithdrefnau’r Awdurdod Lleol.

# 16. Cysylltiadau

17.1 Gall rhieni/gwarcheidwaid sy’n dymuno gwneud cais am gludiant cartref i’r ysgol wneud cais ar y ffurflen briodol sydd ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â Gwasanaethau Addysg ffôn 01492 575595.

17.2 Mae’r tîm Cludiant Cartref i’r Ysgol yng Ngwasanaethau Amgylchedd, Ffyrdd ac Adnoddau yn gyfrifol am drefniadau cludiant gan gymryd i ystyriaeth, cost effeithioldeb, llwybrau sy’n bodoli a threfniadau cludiant cytundebol. Rhif cysylltu - 01492 577899.